Canllaw i athrawon ar hunanwerthuso ysgol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Pecyn Cyfnod Allweddol 2

D.
Dadansoddi data perfformiad ysgol

Dadansoddiad enghreifftiol
Cyfnod Allweddol 2 2011/12

Fersiwn 1.0 Tachwedd 2012

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y pecyn hwn at:

Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6014

e-bost: IMS@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn **dysgu.cymru.gov.uk**

ISBN digidol 978 0 7504 8402 2
© Hawlfraint y Goron 2012
WG17118

1. SUT I DDEFNYDDIO'R DDOGFEN (D) 'DADANSODDI DATA PERFFORMIAD YSGOL: DADANSODDIAD ENGHREIFFTIOL CYFNOD ALLWEDDOL 2'

1.1 Mae'r **Dadansoddiad Enghreifftiol** hwn (d) yn disgrifio un dull o werthuso data perfformiad ysgol er mwyn nodi materion i ymchwilio ymhellach iddynt a/neu weithredu yn eu cylch.

1.2 Defnyddiwyd y dogfennau data perfformiad canlynol o ysgol enghreifftiol ar gyfer y gwerthusiad hwn:

a) **Adroddiad Cymharol Ysgol CA2**

(b) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Pecyn Cyd-destunol CA2**

(c) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Pecyn Perfformiad CA2**

1.3 Mae dogfen (ch) **Llinell Amser Data Perfformiad Ysgol - CA2** yn rhoi crynodeb o gynnwys y rhain. Bydd angen i chi nodi mis rhyddhau'r datganiad (a roddir ym mharagraff 1.2 o'r ddogfen **Trosolwg**) er mwyn dod o hyd i'r datganiad cywir yn y **Llinell Amser**, oherwydd caiff rhai dadansoddiadau eu rhyddhau fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn wrth i gynnwys gael ei ychwanegu neu ei ddiweddaru.

1.4 Cyfeirir at ddogfennau (ch) **Llinell Amser Data Perfformiad Ysgol - CA2** a (dd) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Nodiadau Canllaw CA2** drwy gydol y **Dadansoddiad Enghreifftiol** hwn. Dylai cyfeirio at y dogfennau hyn wrth i chi ddarllen y **Dadansoddiad Enghreifftiol** hwn eich helpu i ddeall y cyd-destun ac egluro'r data a geir ynddo ymhellach.

1.5 Darperir Geirfa ar wahân hefyd, sy'n cynnwys talfyriadau ac acronymau.

2. DADANSODDIAD ENGHREIFFTIOL: CEFNDIR

2.1 Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu bennu targedau o ran perfformiad ac absenoldeb a'u cyflwyno i'r awdurdod lleol erbyn 31 Rhagfyr. Dylai'r targedau hyn adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol a nodwyd drwy waith hunanwerthuso (Gweler adrannau 2 a 4 o ddogfen (ch) **Llinell Amser Data Perfformiad Ysgol** am ragor o fanylion).

2.2 Gall y wybodaeth sydd ar gael ym mis Gorffennaf a mis Awst, cyn dechrau'r flwyddyn academaidd, gael ei defnyddio i baratoi i ddechrau'r hunanwerthusiad, sy'n hanfodol er mwyn nodi'r blaenoriaethau hyn. Mae hyn yn cynnwys:

2.2.1. Datganiad rhagarweiniol **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan** o **Deuluoedd o ysgolion** - Caiff y ddogfen hon ei rhyddhau ym mis Gorffennaf. Rhestr o ysgolion mewn cyd-destunau tebyg yw hon, a disgwylir i ysgolion gymharu eu perfformiad â'r ysgolion hyn a gweithio gyda hwy i nodi a rhannu arfer gorau.

I gael rhagor o fanylion gweler:

(ch) **Llinell Amser Data Perfformiad Ysgol - CA2**

(dd) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Nodiadau Canllaw CA2**

a'r **Eirfa.**

2.2.2. **(a) Adroddiad Cymharol Ysgol CA2** . Caiff yr adroddiad hwn ei ryddhau tua diwedd Awst, ac mae'n crynhoi perfformiad yr ysgol ar gyfer y flwyddyn sydd newydd ddod i ben ac yn ei gymharu â pherfformiad yr ALl a Chymru. Drwy ddadansoddi'r adroddiad hwn, gellir llunio barn gyffredinol ar berfformiad yr ysgol. I gael rhagor o fanylion gweler:

(ch) **Llinell Amser Data Perfformiad Ysgol - CA2**.

2.3 Caiff (b) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Pecyn Cyd-destunol CA2** ac (c) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Pecyn Perfformiad CA2** eu rhyddhau yn barod ar gyfer dechrau'r tymor ym mis Medi. Fe'u rhyddheir ryw wythnos neu ddwy ar ôl (a) **Adroddiad Cymharol Ysgol CA2** oherwydd y gwaith dadansoddi sylweddol sydd ynghlwm wrth lunio'r pecynnau ar gyfer pob cyfnod allweddol i bob ysgol yng Nghymru. Mae'r pecynnau hyn yn cynnwys dadansoddiadau perfformiad llawer manylach nag (a) **Adroddiad Cymharol Ysgol CA2**. Gellir eu defnyddio i ddadansoddi perfformiad ysgol yn fanwl er mwyn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella.

2.4 Ceir dadansoddiad enghreifftiol ar wahân o bob un o ddogfennau data perfformiad (a), (b) ac (c) ar dudalennau nesaf y ddogfen hon. Y bwriad yw rhoi enghreifftiau o rai o'r materion a'r camau gweithredu allweddol y gellir eu tynnu o bob un:

- Adran 3: (a) **Adroddiad Cymharol Ysgol CA2**
- Adran 4: (b) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Pecyn Cyd-destunol CA2**
- Adran 5: (c) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Pecyn Perfformiad CA2**

3. DADANSODDIAD ENGHREIFFTIOL (A)

ADRODDIAD CYMHAROL YSGOL CA2 2011/12

Mae'r nodiadau canlynol yn tynnu sylw at bwyntiau allweddol y gellir eu tynnu o'r Adroddiad Cymharol Ysgol CA2 2011/12 enghreifftiol sydd wedi'i gynnwys yn y Canllaw hwn ar Hunanwerthuso Ysgol.

3.1 Cyd-destun

- Grŵp Meincnodi Prydau Ysgol am Ddim (FSM)[1]: Mwy na 24 % a hyd at 32 % yn gymwys i gael FSM.

3.2 Rhai pwyntiau perfformiad allweddol

Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, disgwylir i ddisgyblion gyflawni Lefel 4 y Cwricwlwm Cenedlaethol neu uwch (lefel 4+). Gweler yr **Eirfa** i gael manylion am lefelau asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi rhai materion perfformiad allweddol y gellir eu nodi o'r Adroddiad Cymharol Ysgol CA2 ar gyfer y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) a'r pynciau craidd unigol. Caiff perfformiad ei ddadansoddi yn ôl y rhywiau, gan edrych ar gymariaethau â chyfartaleddau'r ALl a Chymru ac o fewn grŵp meincnodi FSM yr ysgol. Caiff perfformiad ei ddadansoddi dros amser hefyd.

[1] Mae'r adroddiad yn meincnodi perfformiad yn erbyn ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Gweler yr **eirfa** a T 20 o **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Nodiadau Canllaw CA2** i gael rhagor o wybodaeth am feincnodi FSM.

Pwnc	Cymhariaeth â chyfartaleddau 'r ALl a Chymru:	Perfformiad yr Ysgol dros amser:	Safle yn y grŵp meincnodi FSM: 1af = chwarter sy'n perfformio orau 4ydd = chwarter sy'n perfformio waethaf
	% sy'n cyflawni **Lefel 4+**	% sy'n cyflawni **Lefel 4+**	% sy'n cyflawni **Lefel 4+**
DPC[2]	Bechgyn yn **llawer uwch** na chyfartaleddau bechgyn yr ALl a Chymru.	Gwelliant yn ystod y ddwy flynedd diwethaf	2il chwarter
Saesneg	Bechgyn yn **llawer uwch** na chyfartaleddau bechgyn yr ALl a Chymru.	Gwelliant yn ystod y ddwy flynedd diwethaf	2il chwarter
Cymraeg	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Mathemateg	Pob disgybl yn **is** na chyfartaleddau Cymru Merched yn **llawer is** na chyfartaledd merched Cymru	Gwelliant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf	3ydd chwarter
Gwyddoniaeth	Pob disgybl yn **is** na chyfartaleddau Cymru Merched yn **llawer is** na chyfartaledd merched Cymru	Gwelliant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf	3ydd chwarter

[2] DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. Er mwyn cyflawni'r DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4, fel sy'n ddisgwyliedig, mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg.

3.3 **Materion a chamau gweithredu**

MATER 1:	Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn is na chyfartaleddau Cymru, ac yn llawer is yn achos merched.
CAM GWEITHREDU 1:	Adolygu perfformiad pob disgybl mewn mathemateg a gwyddoniaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar ferched. Adolygu'r effaith a gaiff perfformiad yn y pynciau hyn ar y DPC. Ystyried olrhain cynnydd disgyblion a cheisio ffyrdd o wella perfformiad L4+ drwy ddarparu cymorth wedi'i dargedu.
MATER 2:	Yn gyffredinol, mae bechgyn yn perfformio'n well o gymharu â chyfartaleddau'r ALl a Chymru na merched.
CAM GWEITHREDU 2:	Ymchwilio i'r rhesymau pam bod bechgyn yn perfformio'n well na merched. Ystyried a yw hyn yn digwydd am fod merched yn tangyflawni a rhoi'r rhesymau dros hyn.
MATER 3:	Mae'r ysgol wedi gwella ym mhob pwnc craidd ac yn y DPC.
CAM GWEITHREDU 3:	Ystyried y rhesymau dros hyn.

4. DADANSODDIAD ENGHREIFFTIOL (B)

SETIAU DATA CRAIDD CYMRU GYFAN: PECYN CYD-DESTUNOL CA2

Cyflwyniad

Mae'r nodiadau canlynol yn tynnu sylw at bwyntiau allweddol y gellir eu tynnu o Becyn Cyd-destunol CA2 enghreifftiol Setiau Data Craidd Cymru Gyfan sydd wedi'i gynnwys yn y Canllaw hwn ar Hunanwerthuso Ysgol. Mae'r Pecyn Cyd-destunol yn disgrifio'r cyd-destun y mae'r ysgol yn gweithredu ynddo, a hefyd yn rhoi trosolwg lefel uchel o berfformiad.

4.1 Gweler (dd) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Nodiadau Canllaw CA2** i gael esboniad cynhwysfawr o sut i ddefnyddio'r Pecyn Cyd-destunol hwn.

Hunanwerthuso

4.2 **Data Cyd-destunol Allweddol**

- 278 o ddisgyblion o oedran ysgol statudol (139 o fechgyn / 139 o ferched) (Siart 1.1a)
- Cyfnod Allweddol 2 (CA2) - 59 o ddisgyblion o oedran ysgol statudol yng ngrŵp blwyddyn 6 (27 o fechgyn / 32 o ferched) (Siart 1.3a)
- Cefndir ethnig - 2% yn Brydeinwyr nad ydynt yn wyn. Yn is na lefel cefndir ethnig yr Awdurdod Lleol (ALl) o 5% (Siart 1.1b)
- Disgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) - Nid oes unrhyw ddisgyblion yn caffael SIY, yn is na lefelau'r ALl (Siart 1.1c)
- Canrannau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn debyg i'r ALl (Siart 1.2a)
    - Gweithredu gan yr Ysgol 18.71% = 52 o ddisgyblion
    - Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy 7.55% = 21 o ddisgyblion

- o Â datganiad 0.36% = 1 disgybl

- FSM - 26.67% o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim (grŵp meincnodi FSM 4) (Siart 1.2b)
- Saesneg yn unig (Siart 1.3b) (Gweler tudalen 5 o (dd) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Nodiadau Canllaw CA2** am resymau i egluro pam y gallai data ynghylch y **Gymraeg fel iaith gyntaf** fod ar goll)

D.S. Oherwydd bod polisïau AAA a'r cyfleusterau a'r cymorth a roddir i ddisgyblion ag AAA yn amrywio'n fawr rhwng ALlau, nid yw'r data cyd-destunol yn cynnwys gwybodaeth am ba un a oes gan ysgol uned / sylfaen adnoddau arbennig. Gall hyn effeithio ar ddeilliannau perfformiad a dylid ystyried hyn fel rhan o'r hunanwerthusiad. Gweler tudalen 7 o (dd) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Nodiadau Canllaw CA2.**

5. DADANSODDIAD ENGHREIFFTIOL (C)

SETIAU DATA CRAIDD CYMRU GYFAN: PECYN PERFFORMIAD CA2

Cyflwyniad

5.1 Mae'r nodiadau canlynol yn tynnu sylw at bwyntiau allweddol y gellir eu tynnu o Becyn Perfformiad CA2 enghreifftiol Setiau Data Craidd Cymru Gyfan sydd wedi'i gynnwys yn y Canllaw hwn ar Hunanwerthuso Ysgol. Mae'r pecyn hwn yn darparu dadansoddiadau manwl o berfformiad ysgol o gymharu â Theulu'r ysgol, ei Hawdurdod Lleol, a Chymru.

5.2 Gweler (dd) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Nodiadau Canllaw CA2** i gael esboniad cynhwysfawr o sut i ddefnyddio'r Pecyn Perfformiad hwn.

5.3 Rhennir **Pecyn Perfformiad CA2 Setiau Data Craidd Cymru Gyfan** yn adrannau. Ar ddechrau'r rhan fwyaf o'r adrannau hyn, ceir rhestr o gwestiynau cyfarwyddyd y gallech eu defnyddio o bosibl i lywio eich gwaith hunanwerthuso. Datblygwyd y rhain ar y cyd ag Estyn yn y rhan fwyaf o achosion.

Hunanwerthuso - Cefndir y teulu

5.4 **Teulu o Ysgolion**: Yr ysgol hon yw'r isaf ond dwy o ran lefel yr her y mae'n ei hwynebu gan mai hi yw aelod naw mewn teulu o 11 ysgol. Ym mhob teulu, aelod cyntaf y teulu yw'r un sy'n wynebu'r her fwyaf a'r olaf sy'n wynebu'r her leiaf.

5.5 Dangosir safle'r ysgol yn y teulu yn **natganiad rhagarweiniol Setiau Data Craidd Cymru Gyfan** ym mis Gorffennaf. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn hawdd hefyd ar unrhyw siartiau Cymharu Teulu, lle caiff bar yr ysgol ar y siart ei ddynodi gan ymyl coch. Er enghraifft, gweler Adran 1 - DPC, siart 1.1b.

5.6 Nid oes unrhyw ddata ar gyfer aelodau un a chwech y teulu. Gweler tudalen 7 o (dd) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Nodiadau Canllaw CA2** i ganfod y rhesymau posibl dros hyn.

Hunanwerthuso

Adran 1 Pecyn Perfformiad CA2: DPC

5.7 Pwyntiau perfformiad allweddol: DPC

- Mae'r DPC wedi gwella dros y ddwy flynedd diwethaf (Siart 1.1a)
- Mae'r DPC yn uwch na chyfartaleddau'r Teulu, yr ALl a Chymru ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf (Siart 1.1b)
- Gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran cyflawni'r DPC[3]- mae bechgyn yn perfformio rywfaint yn well na merched, o 0.81 pwynt canran. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa o ran cyfartaledd y Teulu, yr ALl a Chymru, lle mae merched yn perfformio'n well na bechgyn (Siart 1.1c).
- Disgyblion FSM sy'n cyflawni'r DPC = 66.67% o gymharu â disgyblion dim FSM sy'n cyflawni'r DPC = 75.76% yn 2010/2011. Gwelliant sylweddol yng nghanran y disgyblion FSM sy'n cyflawni'r DPC rhwng 2009/10 a 2010/11. (Siart 1.2a)

5.8 Materion a chamau gweithredu: DPC

MATER 1: Effaith canlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth ar berfformiad DPC. (Nodwyd o (a) Adroddiad Cymharol Ysgol CA2 ac adrannau pynciau perthnasol yn y pecyn perfformiad hwn)

---

[3] **Mae Graffiau Cymharu Teulu - Gwahaniaethau rhwng y Rhywiau** yn dangos y gwahaniaeth mewn perfformiad (fel pwyntiau canran) ar lefel 4+ rhwng bechgyn a merched.

- mae gwerth sero yn dangos nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched;
- mae gwerth negatif yn dangos bod perfformiad y bechgyn yn waeth na pherfformiad y merched
- mae gwerth positif yn dangos bod perfformiad y bechgyn yn well na pherfformiad y merched

Gweler tudalen 12 o **(dd) Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Nodiadau Canllaw CA2.**

CAM GWEITHREDU 1:	Adolygu effaith perfformiad pob disgybl ar y DPC. Ystyried olrhain eu cynnydd a cheisio ffyrdd o wella perfformiad L4+ a L5+ drwy ddarparu cymorth wedi'i dargedu.
MATER 2:	Bwlch rhwng y rhywiau - mae perfformiad bechgyn yn well na pherfformiad merched.
CAM GWEITHREDU 2:	Ymchwilio i'r rhesymau pam bod gwahaniaeth rhwng y rhywiau o blaid y bechgyn. Mae hyn yn groes i'r sefyllfa ar gyfer y Teulu, yr ALl a Chymru, lle mae merched yn perfformio'n well na bechgyn. Ystyried a yw hyn yn digwydd am fod merched yn tangyflawni neu am fod bechgyn yn perfformio'n dda.
MATER 3:	Roedd perfformiad disgyblion FSM yn y DPC wedi gwella yn 2010/11.
CAM GWEITHREDU 3:	Ystyried y rhesymau dros hyn

Hunanwerthuso

Adran 2 Pecyn Perfformiad CA2: SAESNEG

5.9 Pwyntiau perfformiad allweddol: SAESNEG

5.9.1 <u>Ar gyfer Saesneg fel pwnc</u>: % y Disgyblion sy'n Cyflawni:

Lefel 4+ (Siartiau 2.1a-c)

- L4+ = 86.44% yn cyflawni. Dim ond un Ysgol arall yn y Teulu sydd â chanlyniadau gwell
- Uwchlaw cyfartaleddau'r Teulu, yr ALl a Chymru
- Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn fach ac yn is na chyfartaleddau'r Teulu, yr ALl a Chymru

Lefel 5+ (Siartiau 2.2a-c)

- L5+ = 33.90%. Wedi gwella yn ystod pob un o'r tair blwyddyn ddiwethaf
- Uwchlaw cyfartaleddau'r Teulu, yr ALl a Chymru
- Fodd bynnag, mae tri aelod o'r Teulu sydd ag amgylchiadau mwy heriol yn cyflawni gwell canlyniadau L5+
- Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn fwy nag yn achos y Teulu, yr ALl a Chymru
- Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn llawer mwy nag ar gyfer L4+ felly mae % y bechgyn a'r merched sy'n cyflawni L4+ yn debyg ond mae % llawer uwch o ferched yn cyflawni L5.

Pob un o Lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Siartiau 2.3a-c)

- L1 a L2 - mae canran uwch o ddisgyblion ar y lefelau hyn o gymharu â chyfartaleddau'r Teulu, yr ALl a Chymru

5.9.2 **Ar gyfer Targedau Cyrhaeddiad[4]: % y Disgyblion sy'n Cyflawni**

Llafaredd (Siartiau 2.4a-c a 2.5a-c):

- Mae llafaredd yn gwella ac mae L4+ a L5+ yn uwch na chyfartaleddau'r Teulu, yr ALl a Chymru.
- Fodd bynnag, mae canran uwch o ddisgyblion yn cyflawni L2 nag ysgolion eraill yn y Teulu, yr ALl a Chymru.

Darllen (Siartiau 2.6a-c a 2.7a-c):

- Mae darllen wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n uwch na chyfartaleddau'r Teulu, yr ALl a Chymru.
- Fodd bynnag**,** mae canran uwch o ddisgyblion yn cyflawni L1 a L2 nag ysgolion eraill yn y Teulu, yr ALl a Chymru.

Ysgrifennu (Siartiau 2.8a-c a 2.9a-c):

- Mae ysgrifennu wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n uwch na chyfartaleddau'r Teulu, yr ALl a Chymru.
- Mae perfformiad bechgyn yn gadarnhaol iawn ar L4+ ond ni chyflawnodd unrhyw fechgyn L5+.

[4] Yn dilyn y diwygiadau i Raglen Astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2008, Cymraeg a Saesneg yw'r unig bynciau craidd sydd wedi cadw targedau cyrhaeddiad (TC) ar wahân. Mae'r targedau cyrhaeddiad ar gyfer Cymraeg a Saesneg fel a ganlyn: TC1 - Llafaredd, TC2 - Darllen, TC3 - Ysgrifennu. (gweler tudalen 14 o (dd) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Nodiadau Canllaw CA2** i gael rhagor o wybodaeth).

- Mae merched yn cyflawni'n is na chyfartaleddau'r Teulu, yr ALl a Chymru ar L5+.
- Mae canran uwch o ddisgyblion ar L1 o gymharu â'r Teulu, yr ALl a Chymru.

5.10 **Materion a chamau gweithredu: SAESNEG**

MATER 1:	% isel o ddisgyblion yn cyflawni L5+ mewn ysgrifennu.
CAM GWEITHREDU 1:	Adolygu dulliau o addysgu sgiliau ysgrifennu estynedig; sefydlu Cymuned Dysgu Proffesiynol benodol. Defnyddio'r fframwaith llythrennedd i adolygu cynlluniau gwaith ar gyfer ysgrifennu ac ymestyn sgiliau fel y gellir pennu disgwyliadau mwy heriol ar gyfer disgyblion.
MATER 2:	Nifer y disgyblion ar L1 a L2.
CAM GWEITHREDU 2:	Rhaglen Ymyriadau Cymorth wedi'u Targedu ar gyfer disgyblion ar L1 a L2. Defnyddio'r fframwaith llythrennedd i adolygu cynlluniau gwaith er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gweithio tuag at ddeilliannau disgwyliedig.

Hunanwerthuso

Adran 3 Pecyn Perfformiad CA2: CYMRAEG

5.11 **Pwyntiau perfformiad allweddol: CYMRAEG**

Dim un disgybl yn astudio Cymraeg fel iaith gyntaf

Hunanwerthuso

Adran 4 Pecyn Perfformiad CA2: MATHEMATEG

5.12 **Pwyntiau perfformiad allweddol: MATHEMATEG**

Ar gyfer Mathemateg: % y Disgyblion sy'n Cyflawni:

Lefel 4+ (Siartiau 4.1a-c)

- Roedd canlyniadau L4+ wedi gwella y llynedd
- Fodd bynnag, yn is na chyfartaleddau'r Teulu, yr ALl a Chymru
- Mae gan bedair ysgol yn y Teulu sy'n wynebu amgylchiadau mwy heriol lefelau cyflawni uwch ar L4+
- 3ydd chwarter y grŵp meincnodi FSM (Adran 9: Meincnodi, Siart 9.1b)

Lefel 5+ (Siartiau 4.2a-c)

- Mae canlyniadau L5+ wedi amrywio dros y pum mlynedd diwethaf ond maent bob amser wedi bod yn is na chyfartaleddau'r Teulu, yr ALl a Chymru
- Perfformiad gwaethaf yn y Teulu ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf
- Yn sylweddol is na chyfartaleddau'r Teulu, yr ALl a Chymru yn achos y rhan fwyaf o flynyddoedd
- 4ydd chwarter y grŵp meincnodi FSM (Adran 9: Meincnodi, Siart 9.1c)

Pob un o Lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Siartiau 4.3a-c)

- Canran uwch o ddisgyblion ar L2 o gymharu â'r Teulu, yr ALl a Chymru

5.13 **Materion a chamau gweithredu: MATHEMATEG**

MATER 1:	Gwella perfformiad ar bob lefel a gwella L4+; angen sicrhau bod gwelliannau yn parhau o un flwyddyn i'r llall.
CAM GWEITHREDU 1:	Defnyddio'r fframwaith rhifedd i adolygu cynlluniau gwaith ar bob lefel a sicrhau y caiff yr holl sgiliau eu datblygu.
MATER 2:	Gwella perfformiad ar L5+.
CAM GWEITHREDU 2:	Rhoi mwy o her i ddisgyblion mwy abl drwy ddarparu gweithgareddau ymestynnol. Defnyddio'r fframwaith rhifedd i adolygu cynlluniau gwaith. Ystyried sefydlu Cymuned Dysgu Proffesiynol gydag aelodau eraill y Teulu i ddatblygu gweithgareddau ymestynnol.

Hunanwerthuso

Adran 5 Pecyn Perfformiad CA2: GWYDDONIAETH

5.14 **Pwyntiau perfformiad allweddol: GWYDDONIAETH**

<u>Ar gyfer Gwyddoniaeth</u>: % y Disgyblion sy'n Cyflawni:

Lefel 4+ (Siartiau 5.1a-c)

- L4+ yn uwch na chyfartaledd y Teulu, ychydig yn uwch na chyfartaledd yr ALl ond yn is na chyfartaledd Cymru
- Roedd perfformiad wedi gwella y llynedd ar ôl dwy flynedd o ddirywiad
- 3ydd chwarter y grŵp meincnodi FSM (Adran 9: Meincnodi, Siart 9.1b)

Lefel 5+ (Siartiau 5.2a-c)

- Mae L5+ yn sylweddol is na chyfartaledd y Teulu, yr ALl a Chymru ar gyfer pob blwyddyn
- Yr ysgol â'r perfformiad gwaethaf yn y Teulu
- Roedd merched wedi perfformio rywfaint yn well na'r bechgyn
- 4ydd chwarter y grŵp meincnodi FSM ers y 3 blynedd diwethaf (Adran 9: Meincnodi, Siart 9.1c)

Pob un o Lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (Siartiau 5.1a-c; 5.2a-c a 5.3a-c)

- Mae Ysgolion yn y Teulu sydd mewn sefyllfaoedd mwy heriol yn perfformio'n well ar L4+ a L5+

5.15 **Materion a chamau gweithredu: GWYDDONIAETH**

MATER 1:	Gwella perfformiad pob disgybl mewn gwyddoniaeth.
CAM GWEITHREDU 1:	Adolygu cynlluniau gwaith a rhoi mwy o her i bob disgybl drwy ddarparu gweithgareddau ymestynnol. Ystyried sefydlu Cymuned Dysgu Proffesiynol gydag ysgolion eraill yn y Teulu neu weithio gydag ysgolion yn y clwstwr lleol, gan gynnwys yr ysgol uwchradd.

Hunanwerthuso

Adran 6 Pecyn Perfformiad CA2: CYMHARU'R RHYWIAU

5.16 **Pwyntiau perfformiad allweddol: GWAHANIAETHAU RHWNG Y RHYWIAU**

Lefel 5+ (Siartiau 6.1a a 6.2a): **% y Disgyblion sy'n Cyflawni**:

Saesneg:

- Lleihaodd y gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn sylweddol rhwng 2010/11 a 2011/12 ond roedd y gwahaniaeth yn llai cyn 2010/11.
- Fodd bynnag, mae perfformiad y merched yn sylweddol well na pherfformiad y bechgyn o hyd. Mae'r sefyllfa hon yn debyg i sefyllfa'r Teulu, yr ALl a Chymru ond ceir mwy o wahaniaeth rhwng y rhywiau yn yr ysgol hon.

Mathemateg:

- Mae'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau wedi amrywio yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae'r bechgyn wedi perfformio'n well na'r merched yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn fwy nag yn achos y Teulu, yr ALl a Chymru.

Gwyddoniaeth:

- Roedd perfformiad y merched yn sylweddol well na pherfformiad y bechgyn yn 2010/11 ond lleihaodd y gwahaniaeth hwn yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Lefel 4+ (Siartiau 6.1b a 6.2b): **% y Disgyblion sy'n Cyflawni**:

- Ychydig iawn o wahaniaeth a geir rhwng y rhywiau ar L4+ ar gyfer y DPC, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae perfformiad y bechgyn rywfaint yn well na pherfformiad y merched. Mae hyn yn wahanol i sefyllfa'r Teulu, yr ALl a Chymru.
- Mae perfformiad y merched mewn Saesneg rywfaint yn well na pherfformiad y bechgyn ond mae'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn llawer llai nag yn achos y Teulu, yr ALl a Chymru.
- Saesneg a'r DPC: Roedd newid mawr yn 2010/11. Roedd merched wedi perfformio'n llawer gwell na bechgyn yn 2009/10. O 2010/11, dechreuodd y bechgyn berfformio'n well neu berfformio cystal â'r merched.

5.17 **Materion a chamau gweithredu: GWAHANIAETHAU RHWNG Y RHYWIAU**

MATER 1:	Llai o wahaniaeth rhwng y rhywiau ar L5+ ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf. Mae perfformiad y merched yn well na pherfformiad y bechgyn o hyd.
CAM GWEITHREDU 1:	Ymchwilio i'r rhesymau pam bod y gwahaniaeth rhwng y rhywiau wedi lleihau yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf. Ystyried a yw hyn yn digwydd am fod merched yn tangyflawni neu am fod perfformiad bechgyn yn gwella (mae’r dadansoddiadau yn Adran 2 - Saesneg yn cynnwys manylion am berfformiad yn 2011/12). Ystyried ffyrdd o leihau'r gwahaniaeth hwn ymhellach.
MATER 2:	Mae perfformiad y bechgyn rywfaint yn well na pherfformiad y merched ar L4+ ar gyfer y DPC, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hyn yn wahanol i sefyllfa'r Teulu, yr ALl a Chymru.

CAM GWEITHREDU 2: Ymchwilio i'r rhesymau pam nad oes cymaint o wahaniaeth rhwng y rhywiau o gymharu â'r Teulu, yr ALl a Chymru. Ystyried a yw hyn yn digwydd am fod merched yn tangyflawni neu am fod bechgyn yn perfformio'n dda.

Hunanwerthuso

Adran 7 Pecyn Perfformiad CA2: CYFLAWNI CYFUNIADAU

5.18 Pwyntiau perfformiad allweddol: CYFLAWNI CYFUNIADAU

5.18.1 Darllen / Ysgrifennu / Mathemateg (D/Y/M)

Lefel Ddisgwyliedig (L4+) o ran cyfuniad (Siartiau 7.1a-c a 7.3a-b)

- Yn uwch na'r Teulu, yr ALl a Chymru; perfformiad wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar ôl iddo ddirywio dros y ddwy flynedd flaenorol
- Mae bechgyn yn perfformio'n well na merched, yn wahanol i'r Teulu, yr ALl a Chymru
- Mae'r ysgol sy'n wynebu'r her fwyaf ond un yn y Teulu yn perfformio'n llawer gwell.

5.18.2 Darllen / Ysgrifennu / Mathemateg / Gwyddoniaeth (D/Y/M/G)

Lefel Ddisgwyliedig (L4+) o ran cyfuniad (Siartiau 7.2a-c a 7.3a-b)

- Yn uwch na'r Teulu, yr ALl a Chymru; perfformiad wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf ar ôl iddo ddirywio dros y ddwy flynedd flaenorol
- Mae bechgyn yn perfformio'n well na merched, yn wahanol i'r Teulu, yr ALl a Chymru
- Yr ysgol â'r perfformiad gorau yn y Teulu

5.19 Materion a chamau gweithredu: CYFLAWNI CYFUNIADAU

MATER 1: Perfformiad mewn D/Y/M a D/Y/M/G wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

CAM GWEITHREDU 1:	Ymchwilio i'r rhesymau dros y newid mewn perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Parhau i geisio gwneud gwelliannau mewn pynciau craidd a pherfformiad.
MATER 2:	Mae bechgyn yn perfformio'n well na merched ar gyfer D/Y/M a D/Y/M/G.
CAM GWEITHREDU 2:	Ystyried a yw hyn yn digwydd am fod merched yn tangyflawni neu am fod bechgyn yn perfformio'n dda, neu'r ddau. Parhau i geisio gwella perfformiad y merched.

Hunanwerthuso

Adran 8 Pecyn Perfformiad CA2: PRESENOLDEB

5.20 Pwyntiau perfformiad allweddol: PRESENOLDEB

Presenoldeb (Siart 8.3: Mae'r data a ddangosir ar gyfer 2007/08 i 2010/11. Darperir y data ar gyfer 2011/12 mewn datganiad diweddarach ym mis Ionawr. Gweler (ch) **Llinell Amser Data Perfformiad Ysgol** i gael rhagor o fanylion).

- 92.9% yn 2010/2011
- Mae hyn yn gosod yr ysgol yn yr ail chwarter ar gyfer ei grŵp meincnodi FSM (Gweler Siart 9.3 - yn yr Adran Meincnodi) ar ôl iddi fod yn y trydydd chwarter am y tair blynedd flaenorol.
- Bu gwelliant mewn lefelau presenoldeb ar ôl dirywiad bach dros gyfnod o ddwy flynedd.
- Cyfran yr absenoldebau **anawdurdodedig** yn uwch na'r ALl a Chymru yn achos bechgyn a merched.

5.21 Materion a chamau gweithredu: PRESENOLDEB

MATER 1:	Gwella lefelau presenoldeb pob disgybl er mwyn osgoi dychwelyd i'r trydydd chwarter.
CAM GWEITHREDU 1:	Ymgysylltu mwy â rhieni i leihau nifer yr absenoldebau anawdurdodedig. Adolygu’r strategaethau cyfredol a pharhau i fynd ar drywydd absenoldebau anawdurdodedig.

Hunanwerthuso

Adran 9 Pecyn Perfformiad CA2: MEINCNODI

5.22 Pwyntiau perfformiad allweddol: MEINCNODI

Ni ddarperir pwyntiau perfformiad allweddol, materion na chamau gweithredu ar gyfer yr adran Meincnodi yma.

Mae pwyntiau perfformiad allweddol mewn perthynas â Meincnodi FSM wedi'u cynnwys yn gynharach yn y ddogfen hon (gweler y maes pwnc perthnasol).

Gweler (dd) **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Nodiadau Canllaw CA2** am ragor o wybodaeth am Adran Meincnodi **(c) Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: Pecyn Perfformiad CA2.**